# PWYLLGOR CYNLLUNIO

# 9 TACHWEDD 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
S.M. Allen, J.M. Charles, J.K. Howell, A.C. Jones, M.J.A. Lewis, B.D.J. Phillips, E. Skinner, G.B. Thomas, M. Thomas

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
T. Davies, M. Donoghue, A. Leyshon, D. Owen, R. Sparks, D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth);
H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi;
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
K Phillips, Swyddog Rheoli Datblygu;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau.

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: - 10:00yb - 11:53yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Peter Cooper.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| C. Jones | 3 - Cais cynllunio PL/06541 Newid defnydd tŷ allan diangen yn un uned breswyl (adnewyddu caniatâd cynllunio W/38933 dyddiedig 15 Rhagfyr 2020), adeilad ym Mharc y Cnwc, Heol yr Hen Ysgol, Llansteffan, Caerfyrddin, SA33 5HA | Personol a rhagfarnol - Yn adnabod yr ymgeisydd. |

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

### 3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

<table>
<tr><td>PL/03820</td><td>Gosod tŵr delltwaith 30m ar gyfer 6 antena, 4 dysgl drawsyrru, 2 gabinet offer, 1 cabinet mesurydd, 1 cynhwysydd â phanel solar ar ei ben yn cynnwys generadur olew llysiau wedi'i drin â Hydrogen, batri a thanc biodanwydd, 3 arae o baneli solar yn sefyll ar eu traed eu hun a datblygiad ategol, gan gynnwys generadur a thanc tanwydd cysylltiedig, clos â ffens, wal gaergawell a llawr caled ar gyfer prosiect y Rhwydwaith Gwledig a Rennir, Planhigfa Clywedog, Ffarmers, Llanwrda, SA19 8PX</td></tr>
<tr><td></td><td>Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Aman Gwendraeth], rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.<br><br>Cafwyd sylw a wrthwynebai'r cais ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a oedd yn cynnwys:<br><br>• Cyfeiriad at y 67 o sylwadau sy'n gwrthwynebu'r cais;<br>• Nid yw'r manteision anghymesur yn gorbwyso effeithiau negyddol y datblygiad;<br>• Yr effaith esthetig negyddol ar yr amgylchoedd agored lle nad oes strwythurau modern ar hyn o bryd;<br>• Nodwyd bod signal priodol ar gyfer ffonau symudol a band eang ffibr cyflym iawn yn yr ardal ar hyn o bryd ac na fyddai angen y datblygiad arfaethedig.<br><br>Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.</td></tr>
</table>

3.2 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/06541** | **Newid defnydd tŷ allan diangen yn un uned breswyl (adnewyddu caniatâd cynllunio W/38933 dyddiedig 15 Rhagfyr 2020), adeilad ym Mharc y Cnwc, Heol yr Hen Ysgol, Llansteffan, Caerfyrddin, SA33 15HA** |

## 4. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 30 Hydref, 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

## 5. PERFFORMIAD Y GWASANAETH CYNLLUNIO - CHWARTER 2

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio, ar gyfer Chwarter 1 am y cyfnod 1 Gorffennaf 2023 hyd at 30 Medi 2023, ac, yn arbennig, yr Is-adran Rheoli Datblygu a Gorfodi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dangosyddion monitro perfformiad craidd ynghyd â data cymharol ar gyfer 2022/23.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i ymholiad am y data, dywedodd yr Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi, wrth gydnabod bod pandemig Covid wedi cael effaith sylweddol ar y sector gorfodi oherwydd natur yr ymchwiliadau ar safleoedd, eglurwyd bod prosesau wedi cael eu newid yn gynyddrannol i fynd i'r afael â materion gorfodi gan gynnwys y rhai cyn Covid.

- Mynegwyd pryderon ynghylch yr anawsterau o ran cael mynediad at Swyddogion Cynllunio a'r diffyg diweddariadau a oedd yn cael eu rhoi i Aelodau Lleol ynghylch materion gorfodi. Eglurodd yr Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi fod y bwriad i'r Hwb fod yn gyswllt cyntaf wedi ei gyflwyno i helpu i leddfu'r heriau yr oedd Swyddogion Cynllunio yn eu hwynebu o ran yr amser sylweddol a oedd yn cael ei dreulio yn ymateb i lawer o ymholiadau a oedd yn cael effaith niweidiol ar y llwyth gwaith dyddiol. Roedd yr Hwb wedi helpu i ymateb i lawer o'r ymholiadau a hidlo'r ymholiadau i'w hanfon ymlaen a oedd wedyn yn cael eu blaenoriaethu yn unol â hynny. Hefyd, hysbyswyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r adran weithio o fewn cyfyngiadau'r prosesau gorfodi, gan gynnwys amserlenni. O ran y wybodaeth sy'n cael ei hanfon ymlaen at Aelodau lleol, dywedwyd bod risg y gallai achos gorfodi arwain at achos llys. Er bod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud yn y cefndir ar gyfer pob achos gorfodi, nid oedd Swyddogion yn gallu cysylltu â'r cyhoedd na'r Aelodau mewn perthynas ag achos llys.

Wrth dderbyn hyn, dywedodd yr Aelodau y byddent yn ddiolchgar am ddiweddariad byr e.e. mae 'ymweliad safle' wedi'i wneud, 'ar waith', byddai'r wybodaeth hon yn rhoi gwybod i'r Aelodau lleol bod gwaith yn cael ei wneud.

- O ran cwynion/adroddiadau, eglurodd yr Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi nad oedd adroddiadau dienw bellach yn cael eu derbyn a bod angen enw cyswllt er mwyn cymryd camau pellach. Os yw aelod o'r cyhoedd yn dymuno aros yn ddienw, mae'n gofyn i'w aelod lleol gwyno ar ei ran.

- O ran gorfodi, roedd yr Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi yn cydnabod bod angen gwelliannau pellach ac y byddai'r prosesau mewnol yn cael eu hailystyried.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

## 6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR

### 6.1. 26 MEDI 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Medi 2023, gan eu bod yn gywir.**

### 6.2. 12 HYDREF 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 12 Hydref, 2023, gan eu bod yn gywir.**

### 6.3. 24 HYDREF 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 24 Hydref, 2023, gan eu bod yn gywir**

________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**